PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Iau, 5 Mawrth 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
S.M. Allen, K.V. Broom, D.M. Cundy (yn lle K. Lloyd), R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, G.R. Jones, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone a D.T. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
A. Bracey, Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
A. Jenkins, Rheolwr Tim Gweithiwr Cymdeithasol
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr- Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 - 11.20 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr I.W. Davies, K. Davies, K. Lloyd a M.J.A. Lewis.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATED I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2019/20

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2019, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019/20.

Rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gorwario £708k o ran y gyllideb refeniw ac y byddai -£31k o amrywiant net yn erbyn y gyllideb gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2019/20.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

Atodiad B - Y Prif Amrywiadau

- Gofynnwyd am esboniad ynghylch yr arbedion a gyflwynwyd yn rhannol yng nghontract Cwm Aur.

Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp nad oedd hi'n gwybod ond byddai'r swyddog perthnasol yn gallu esbonio.

- Mynegwyd pryder ynghylch y swyddi gwag yn y tîm Therapi Galwedigaethol gan fod y broblem wedi bodoli ers cryn amser.
  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod swyddi gwag yn y tîm Therapi Galwedigaethol yn broblem genedlaethol a hefyd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod ei datrys. Er bod y broblem yn parhau i fodoli, roedd cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud.
- Gofynnwyd pam roedd yr incwm ar daliadau uniongyrchol wedi aros ar yr un lefel a hynny pan oedd y galw am wasanaeth wedi cynyddu.
  Dywedodd yr Uwch reolwr Cymorth Busnes y byddai rhai taliadau uniongyrchol a dderbynnir yn cael eu cymhwyso i'r llinell gofal cartref. Roedd yr adroddiad yn ceisio adlewyrchu'r symudiadau rhwng ardaloedd ond doedd hynny ddim yn bosibl bob amser.
- Gofynnwyd i swyddogion a oedd defnyddwyr gwasanaeth wedi'u hailasesu yn sgil y gostyngiad mewn gofal dau ofalwr.
  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gofal yn cael ei werthuso'n barhaus ac nad oedd gostyngiad mewn gofal dau ofalwr yn ymgais i leihau costau. Os byddai'r gofalwyr yn rhoi gwybod bod angen gofal ychwanegol ar ddefnyddwyr, byddai gofal dau ofalwr yn cael ei adfer.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch gorwariant ar staffio yng Nghanolfan Ddydd Coleshill.
  Dywedodd y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod trefniadau staffio wedi cael eu newid wrth i staff y 3ydd sector gael eu disodli gan staff yr Awdurdod, a oedd wedi cynyddu cost. Byddai'r offer diweddaraf yn lleihau'r angen am ofal dau neu dri gofalwr a'r cynllun tymor hir oedd i leihau costau staffio.
- Cyfeiriwyd at wariant ar staff asiantaeth yng nghartrefi gofal yr Awdurdod. Cadarnhawyd bod hwn yn fater penodol ar gyfer cartrefi gofal preswyl, fodd bynnag, roedd cryn dipyn o waith wedi'i wneud i wella cymhareb staffio. Fel arfer byddai staff asiantaeth ond yn cael eu defnyddio os oedd perygl i wasanaethau rheng flaen.

Atodiad C - Yr Amrywiadau'n Fanwl

- Gofynnwyd i swyddogion am egwyddorion ‘front loading’ gan y byddai gorwariant helaeth yn diflannu yn aml.
  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai ffigyrau newid ar raddfa gyflym ar sail ystod o resymau gan gynnwys, incwm hwyr gan Lywodraeth Cymru (megis taliadau pwysau gaeaf) ac incwm cleient. Roedd hi'n anodd rhagweld sefyllfa incwm cleient ar sail fforddiadwyedd.

Atodiad F - Adroddiad Monitro Arbedion

- Gofynnwyd am y newyddion diweddaraf ynghylch adolygiad o Leoliadau Cysylltu Bywydau.
  Dywedodd y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod adolygiad sylweddol wedi'i gynnal gan fod yna bryderon na fyddai'r gwasanaeth yn bodloni gofynion y dyfodol. Roedd yr adroddiad wedi cael ei dderbyn ac roedd yr argymhellion ar waith. Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn llawn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y llinell Gwasanaeth Gofal Cartref lle nad oedd £0 o'r £45K o arbedion arfaethedig wedi'u gwireddu.

Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel eu bod nhw wedi bod llawer rhy uchelgeisiol o ran gweithredu systemau TG. Roedd cymryd Allied drosodd yn ystod y flwyddyn wedi oedi'r gwaith o gyflwyno'r system, ond byddai'r system ar waith i dros 400 o ddefnyddwyr erbyn diwedd mis Mawrth a fyddai'n arwain at welliannau o ran effeithlonrwydd.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

5. DOGFEN CYNLLUNIO A CHWMPASU GRWP GORCHWYL A GORFFEN

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried nifer o awgrymiadau ac wedi cytuno i gynnal adolygiad i Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin, ar ôl i'r aelodau ofyn am awgrymiadau ar gyfer prosiectau posibl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cafodd trafodaethau'r Pwyllgor o ran prif nodau ac amcanion yr adolygiad Gorchwyl a Gorffen eu cofnodi a'u datblygu mewn dogfen cynllunio a chwmpasu ddrafft, a oedd yn cynnwys nodau a chwmpas yr adolygiad, ac a oedd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried a'i chymeradwyo.

Yn ogystal, roedd angen i'r Pwyllgor gadarnhau'r aelodau a ddylai fod yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a ddylai gynnwys hyd at 7 aelod sy'n wleidyddol gytbwys.

Dywedwyd y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 16 Mehefin, 2020 pan gafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd eu penodi o blith aelodau'r Grŵp. Byddai swyddogion yr Adran Cymunedau a'r Uned Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

PENDERFYNWYD

5.1 derbyn Dogfen Gwmpasu y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;

5.2 cadarnhau nodau a chwmpas gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;

5.2 bod yr aelodaeth o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:-

- **Y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies [Is-gadeirydd]**
- **Y Cynghorydd Amanda Fox**
- **Y Cynghorydd Ken Lloyd**
- **Y Cynghorydd Louvain Roberts**
- **Y Cynghorydd Emlyn Schiavone**
- **Y Cynghorydd Gwyneth Thomas [Cadeirydd]**
- **Y Cynghorydd Dorian Williams**

5.3 Teitl y Ddogfen Gwmpasu "Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin".

6. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:

- Strategaeth Anableddau Dysgu (2018/2023) – er mwyn cydymffurfio â'r broses gymeradwyo, nodwyd na fyddai'r adroddiad ar gael tan fis Mai.
- Ymgynghoriad ar Gyllideb y Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd.

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

7. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad diweddaru a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, a'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o'r cyfarfodydd blaenorol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 15 Ebrill 2020.

9. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y 22AIN IONAWR, 2020

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 21 Ionawr 2020 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**